# CRYNODEB O GANLYNIAD YR YMGYNGHORI AR WEITHDREFN DDRAFFT AR GYFER CWYNION YN ERBYN AELODAU

Cafodd y papur ei gylchredeg ar 16 Rhagfyr 1999; gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno'u sylwadau i'r Swyddfa Gyflwyno erbyn 24 Ionawr 2000

Cafwyd cyfanswm o 20 ymateb; 16 ohonynt gan un blaid.

Cadarnhaodd 16 o'r rhai a ymatebodd eu bod yn fodlon â'r weithdrefn ddrafft; cafwyd awgrymiadau ar gyfer ei gwella / ceisiadau am eglurhad gan dri ohonynt.

<u>Sylwadau</u>

> Dylai'r weithdrefn gynnwys darpariaeth i Aelodau y gwnaed cwynion yn eu herbyn gael gwybod cyn gynted ag y bo modd.
>
> Yn y disgrifiad o gam 2, yn lle 'hidlo' ysgrifenner 'blaenoriaethu'.
>
> Mae angen egluro a fydd gan Aelod yr hawl i ddod â chyfaill gydag ef, ac os felly a fydd unrhyw gyfyngiadau ar hyn (ee a allai fod yn gyfreithydd)?
>
> A fydd unrhyw derfyn amser ar gyfer y broses?

**Ac yn yr ychwanegiad at gam 3,** a gomisiynwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf ond (trwy gytundeb) na adolygwyd mohono gan y Pwyllgor cyn y cyfnod ymgynghori ag Aelodau:

> Pa mor hawdd fydd hi i ddiffinio 'nad yw'r gyn yn un sylweddol' yn ymarferol? Pa fathau o 'droseddau' fyddai'n cael eu cynnwys yn y categori hwn?<

***Yr Ysgrifenyddiaeth Ionawr 2000***